



## Safonau Iaith Gymraeg

**Cydymffurfio â'r Safonau Cadw Cofnodion: 155, 157, 159, 161, 163, 165, 167, 169, 171, 173, 175**

### Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

<b>Camau a gymerwyd</b>
Mae'r holl reolwyr a gweithwyr wedi cael gwybod am y Safonau
Rhodddwyd canllawiau i weithwyr: <ul style="list-style-type: none"><li>➤ Delio â galwadau ffôn</li><li>➤ Delio â gohebiaeth</li><li>➤ Gwasanaethau derbynfa</li><li>➤ Cynhyrchu dogfennau, tystysgrifau ar gyfer y cyhoedd</li><li>➤ Cyfryngau cymdeithasol, gwefannau, peiriannau hunan - wasanaeth</li></ul>
Rhannwyd y canllaw gyda gweithwyr yn ymwneud â gwahoddiadau i gyfarfodydd a digwyddiadau. Bydd gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gael pan fo'r angen.
Mae datganiadau safonol sy'n cynnig y cyfle i gwsmeriaid ohebu yn Gymraeg wedi eu darparu i weithwyr. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys ar ddogfennau, penawdau llythyr ac ati
Mae datganiad sy'n croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg wedi ei gynnwys ar yr holl negeseuon e-bost
Mae Poster, cortynnau gwddf a bathodynau Iaith Gwaith wedi eu dosbarthu i'r holl dderbynfeydd. Mae poster yn cael eu harddangos ym mhob derbynfa
Mae gwefan a pheiriannau hunanwasanaeth y Cyngor yn ddwyieithog
Mae apiau yn ddwyieithog
Gofynnir i aelodau o'r cyhoedd sy'n gwneud cais am gyrsiau a gynhelir gan y Cyngor beth yw eu dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) i asesu'r angen i wersi gael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwersi nofio eisoes ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg
Mae gweithdrefn gwyno eisoes ar gael ac mae'n cynnwys sut i wneud cwyn am achos o beidio cydymffurfio gyda'r Safonau Iaith.



Mae cofnod o'r Safonau y mae gofyn i ni gydymffurfio â hwy ar gael yn ein derbynfydd.

Gwelir y trefniadau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ein hadroddiad blynyddol

### **Cydymffurfio â'r Safonau Ilunio Polisi**

#### **Camau a gymerwyd**

Mae'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei adolygu a'i ddiwygio i gynnwys yr iaith Gymraeg

Mae arweiniad ar ymgynghori ac ymchwil gan gynnwys yr iaith Gymraeg ar gael ar y fewnwyd. Mae hyn wedi cael ei hyrwyddo i weithwyr

Mae modiwl e-ddysgu ar gydraddoldeb ac asesiadau effaith iaith Gymraeg ar gael

Mae grantiau corfforaethol yn cynnwys datganiad am yr iaith Gymraeg. Mae'n ofynnol bod gwasanaethau yn cynnwys datganiad byr am y Gymraeg o fewn ei grantiau i sicrhau cydymffurfedd gyda'r Safonau.

Mae'r Rheolau'r Weithdrefn Contractau yn cynnwys cyfeiriadau at y Safonau iaith ac mae cymalau enghreifftiol ar gael ar gyfer Swyddogion Comisiynu i'w defnyddio mewn contractau.

### **Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol**

#### **Camau a gymerwyd**

Mae rheolwyr a gweithwyr wedi cael gwybod am y Safonau newydd a hawliau gweithwyr

Mae gweithwyr wedi cael gwybod am eu hawliau drwy eitemau newyddion ar y fewnwyd. Byddant hefyd yn cael gwybod trwy eu slipiau cyflog

Mae Cysgliad ar gael ar gyfer gweithwyr

Mae hafan y fewnwyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall weithwyr ddewis drwy rhagdudalen pa fersiwn o'r fewnwyd maent yn dymuno ei ddefnyddio.

Mae tudalen Gymraeg ar gael ar y fewnwyd. Mae'n darparu adnoddau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chefnogi gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae hyfforddiant yn y Gymraeg ar bob lefel ar gael i weithwyr



Mae modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ar gael ar gyfer yr holl weithwyr ac mae wedi'i gynnwys yn y rhaglen gynefino ar gyfer gweithwyr newydd
Mae ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg wedi'i gynnwys yn y cyflwyniad
Mae'r logo iaith Gwaith ar gael i weithwyr sy'n siarad ac yn dysgu Cymraeg. Mae cyfarwyddiadau ar sut i gynnwys hwn ar lofnod e-bost wedi cael ei hyrwyddo i weithwyr.
Mae cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i sefydlu neges 'allan o'r swyddfa' ddwyieithog ar gael i weithwyr
Mae cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i sefydlu llofnod e-bost dwyieithog wedi cael ei roi i weithwyr sy'n defnyddio e-bost.
Gellir nodi siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg ar eu cyfeiriadau e-bost fel 'Siaradwr Cymraeg' a 'Dysgwr Cymraeg'.
Mae proses i asesu sgiliau iaith Gymraeg yn ei le ar gyfer swyddi newydd
Mae archwiliad o sgiliau ieithyddol Cymraeg y gweithlu yn cael ei gynnal o leiaf unwaith y flwyddyn
Mae ffurflenni cais am swyddi wedi cael eu haddasu i ymgeiswyr nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu yn ystod unrhyw asesiad arall
Caiff gwyliau blynyddol ei gofnodi'r electronig, ac mae ar gael yn Gymraeg fel dogfen Word os yw gweithwyr yn dymuno cyflwyno ceisiadau, a chofnodi gwyliau blynyddol yn Gymraeg.
Mae proses gwynion yn Gymraeg ac mae nifer y cwynion a wnaed yn cael ei gofnodi
Mae nifer o bolisiau ar gael yn Gymraeg a Saesneg gan gynnwys: Rheoli Presenoldeb Manteision gweithio i Gyngor Sir y Fflint Polisi Galluogrwydd Polisi Diogelu Corfforaethol Amrywiaeth a Chydraddoldeb Hysbysiad Polisi Preifatrwydd Gweithwyr Polisi Ystyriol o'r Teulu Polisi Gweithio Hyblyg Polisi Maethu i Sir y Fflint Polisi Iechyd a Diogelwch Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle



## Safonau Cadw cofnodion

### Byddwn yn cadw cofnodion o:

- Nifer y cwynion sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r iaith Gymraeg
- Nifer yr asesiadau effaith ar gydraddoldeb ac ar y Gymraeg a gynhaliwyd
- Nifer y gweithwyr sy'n cwblhau'r modiwl e-ddysgu
- Nifer y cwynion sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r iaith Gymraeg
- Nifer y gweithwyr sy'n mynychu hyfforddiant a lefel yr hyfforddiant a fynychwyd
- Nifer a % y gweithwyr sy'n cwblhau'r modiwl e-ddysgu
- Nifer a % y gweithwyr sy'n cwblhau archwiliad o sgiliau ieithyddol Cymraeg cyflawn
- Nifer y swyddi lle
  - Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol
  - Mae angen dysgu sgiliau Cymraeg ar benodiad
  - Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol
  - Nad yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol

Byddwn yn cyflwyno adroddiadau ddwywaith y flwyddyn ac unwaith y flwyddyn i Dîm y Prif Swyddog a'r Cabinet a byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ym mis Mehefin bob blwyddyn.

### **Y broses ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Darparu Gwasanaeth, Gweithredol, Cadw Cofnodion a Gwneud Polisiâu.**

Mae'r cyfrifoldeb beunyddiol am sicrhau cydymffurfiaeth yn gyfrifoldeb i'r gwasanaethau yn uniongyrchol.

Mae arweinwyr y Gymraeg wedi eu henwebu yn y gwasanaethau i gynorthwyo gyda sicrhau cydymffurfiaeth ar lefelau gwasanaeth.

Mae gan y Tîm Polisi a Pherfformiad gyfrifoldeb am fonitro ac adrodd yn strategol ar ddatblygiad y Safonau.

Mae'r cyfrifoldeb am y Safonau yn gyfrifoldeb i'r Prif Weithredwr yn ogystal â'r Cabinet.



Caiff yr holl wasanaethau rydym yn eu cynnig yn unol â'r Safonau hyn eu hyrwyddo drwy gyfryngau cymdeithasol, cyhoeddusrwydd, e-newyddlen a gwefan y Cyngor, sef ein trefn bresennol. Byddwn yn mynd ati i hyrwyddo defnydd o'r gwasanaethau hyn ac yn annog staff i hwyluso'r defnydd o'r gwasanaethau hynny